**Sioned** Oh no! He's coming with the bear.
**Celyn** Hello! I made a new friend today. He was hungry and he loves eating golden honey. He wants to go home with us as well.
**Mr Jones** Celyn!!!
**Mrs Jones** Celyn!!!

## UNED 12 – Dialects, Requests

### Compare dialects, make requests

It’s a lovely day and Mrs Jones is taking a stroll in the park.

| | |
|---|---|
| **Mrs Jones** | Shwmae, Dylan. Sut dych chi? |
| **Dylan** | S’mae, Mrs Jones. Iawn, diolch. Sut dach chi? |
| **Mrs Jones** | Da iawn, diolch. Mae’n braf bore ‘ma. |
| **Dylan** | Ydy. Mae’r tywydd yn wych. Lle mae’r hogan a’r hogyn heddiw? |
| **Mrs Jones** | Ble maen nhw? Mae Sioned yn chwarae gyda merch arall. Ac mae Celyn a bachgen yn nofio yn y pwll. |
| **Dylan** | Ydy o’n licio chwaraeon? |
| **Mrs Jones** | Ydy. Mae e’n hoffi chwarae rygbi dros y penwythnos. Ydy e’n dod nawr? |
| **Dylan** | Ydy. Mae o’n dod rŵan. Mae dynes yn dod hefyd. |
| **Mrs Jones** | Sali yw’r fenyw. |

| | |
|---|---|
| **Mrs Jones** | Bore da, Sali. Dych chi eisiau diod? |
| **Sali** | Bore da, Mrs Jones. Ydw. Ga i goffi, gyda llaeth os gwelwch chi’n dda? Celyn? |
| **Celyn** | Ga i sudd afal os gweli di’n dda? |
| **Mrs Jon**es | Cei. Dylan? |
| **Dylan** | Dim diolch. Dw i ddim isio diod. |
| **Mrs Jones** | Dw i’n talu. |
| **Dylan** | O. Ga i baned, dim llefrith plîs? Ga i fisgedi hefyd? O, ga i ofyn cwestiwn? Dach chi’n mynd i’r archfarchnad?? |

## Translation – Dialects, Requests

### Compare dialects, make requests

It's a lovely day and Mrs Jones is taking a stroll in the park.

| | |
|---|---|
| **Mrs Jones** | Hello, Dylan. How are you? |
| **Dylan** | Hello, Mrs Jones. Fine, thank you. How are you? |
| **Mrs Jones** | Very well, thank you. It's fine this morning. |
| **Dylan** | Yes. The weather is great. Where's the girl and the boy today? |
| **Mrs Jones** | Where are they? Sioned is playing with another girl. And Celyn and a boy are swimming in the pool. |
| **Dylan** | Does he like sports? |
| **Mrs Jones** | Yes. He likes playing rugby over the weekend. Is he coming now? |
| **Dylan** | Yes. He's coming now. A woman is coming too. |
| **Mrs Jones** | Sali is the woman. |

| | |
|---|---|
| **Mrs Jones** | Good morning, Sali. Do you want a drink? |
| **Sali** | Good morning, Mrs Jones. Yes. May I have a coffee, with milk please? Celyn? |
| **Celyn** | May I have an apple juice please? |
| **Mrs Jones** | Yes. Dylan? |
| **Dylan** | No thank you. I'm not thirsty. |
| **Mrs Jones** | I'm paying. |
| **Dylan** | Oh. May I have a cuppa, no milk please? May I have some biscuits as well? Oh, may I ask a question? Are you going to the supermarket?? |

## UNED 13 – What You Have Done, Time

### Say what you have done, tell time

Megan's Aunt Sali is coming to tea but she seems to be running late.

**Megan** Draig! Pam rwyt ti'n cysgu? Mae Sali yn dod o Fangor.
**Draig** Faint o'r gloch mae'r trên yn gadael Bangor?
**Megan** Mae'r trên yn mynd am chwarter wedi un ar ddeg.
**Draig** Am faint o'r gloch mae'r trên yn cyrraedd?
**Megan** Mae'r trên yn cyrraedd am chwe munud i ddau.
**Draig** Pryd mae'r bws yn dod i'r dre?
**Megan** Mae'r bws yn mynd am bum munud ar hugain wedi dau. Mae bws arall am hanner awr wedi pump.

**Megan** Ond, Draig, dwyt ti ddim wedi codi eto!
**Draig** Dw i wedi codi. Dw i wedi ymolchi. Dw i wedi cael bath.
**Megan** Ond dyn ni ddim wedi glanhau'r tŷ!
**Draig** Dw i wedi tacluso'r ddesg. Dw i wedi ysgubo'r llawr hefyd.
**Megan** Ond, dyn ni ddim wedi siopa!
**Draig** Dw i wedi mynd i'r dre. Es i ma's yn gynnar i ddod â'r llaeth ond doedd y siop ddim yn agor tan bump o'r gloch.
**Megan** Wyt ti wedi …?
**Draig** Ydw! Dw i wedi golchi'r car hefyd.

**Megan** Ydy Sali wedi ffonio?
**Draig** Nac ydy. Dyw hi ddim wedi ffonio.
**Megan** Faint o'r gloch ydy hi nawr Draig? Ydy hi'n ugain munud wedi tri?
**Draig** Mae hi'n chwarter i bedwar.
**Megan** Chwarter i bedwar? O na! Ble mae hi?
**Draig** Megan.
**Megan** Dw i'n mynd i aros am ddeg munud tan bum munud i bedwar wedyn dw i'n mynd i'r dre. Dyn ni ddim eisiau aros am ddwy awr.
**Draig** Ond Megan! Mae hi'n ddydd Sadwrn heddiw. Mae Sali yn dod yfory!!!

## Translation – What You Have Done, Time

### Say what you have done, tell time

Megan's Aunt Sali is coming to tea but she seems to be running late.

**Megan** Draig! Why are you sleeping? Sali is coming from Bangor.
**Draig** At what time does the train leave Bangor?
**Megan** The train goes at quarter past eleven.
**Draig** What time does the train arrive?
**Megan** The train arrives at six minutes to two.
**Draig** When does the bus come to the town?
**Megan** The bus goes at twenty five past two.
There's another bus at half past five.

**Megan** But, Draig, you haven't got up yet!
**Draig** I've got up. I've washed. I've had a bath.
**Megan** But we haven't cleaned the house!
**Draig** I have tidied the desk. I have swept the floor as well.
**Megan** But, we haven't shopped!
**Draig** I've been to town. I went out early to bring the milk but the shop didn't open until 5 o'clock.
**Megan** Have you …?
**Draig** Yes! I have washed the car too.

**Megan** Has Sali phoned?
**Draig** No. She hasn't phoned.
**Megan** What time is it now Draig? Is it twenty past three?
**Draig** It's quarter to four.
**Megan** Quarter to four? Oh no! Where is she?
**Draig** Megan.
**Megan** I'm going to wait for ten minutes until five to four then I'm going to the town. We don't want to wait for two hours.
**Draig** But Megan! It's Saturday today.
Sali is coming tomorrow!!!

## UNED 14 – What You Own, Describe Possessions

### Say what you own, describe possessions

Aunt Sali has just missed her bus and seeks help from the village garage.

| | |
|---|---|
| **Sali** | Bore da!  Bore da?  Bore da?? |
| **Mecanic** | O, bore da!  Does dim cloch gyda'r garej a dych chi'n gynnar.  Oes pensil a phren mesur gyda chi? |
| **Sali** | Pensil a phren mesur?  Nac oes, does gen i ddim pensil a phren mesur. |
| **Mecanic** | Wel, dych chi'n lwcus.  Mae pensil a naddwr gyda fi ac mae pren mesur gyda Sioned.  Mae geiriadur gyda hi hefyd. |
| **Sali** | Mae gan Sioned eiriadur! |
| **Mecanic** | Mae ffôn a'r argraffydd gyda ni yn swyddfa Sioned. |
| **Sali** | Mae gynnon *ni* ffôn ac argraffydd! |
| **Mecanic** | Ar hyn o bryd, mae car trydan Mr a Mrs Jones yn y garej.  Mae car newydd gyda nhw. |
| **Sali** | Mae ganddyn nhw gar trydan! |
| **Mecanic** | Ond mae tractor newydd Owen yn dod o'r ffatri heddiw. |
| **Sali** | Owen y ffermwr?  Mae gan y ffermwr dractor newydd! Oes gynno fo rif ffôn Megan hefyd? |
| **Mecanic** | Oes, mae rhif ffôn Megan gyda fe.  Fel ysgrifenyddes Gareth, dych chi'n ffonio Owen am hanner dydd. |
| **Sali** | Ysgrifenyddes?  Dw i ddim yn gweithio fel ysgrifenyddes!<br>Sali o Aberdaron dw i.  Dw i'n ymweld â Megan a Draig ond mae gan y bwthyn ffôn newydd a does gen i ddim rhif. |
| **Mecanic** | Felly … Does dim swydd newydd gyda chi mewn garej? |
| **Sali** | Nac oes!  Dim diolch!!! |

## Translation – What You Own, Describe Possessions

### Say what you own, describe possessions

Aunt Sali has just missed her bus and seeks help from the village garage.

| | |
|---|---|
| **Sali** | Good morning! Good morning? Good morning?? |
| **Mecanic** | Oh, good morning! The garage doesn't have a bell and you're early. Do you have a pencil and a ruler? |
| **Sali** | A pencil and a ruler? No, I don't have a pencil and a ruler. |
| **Mecanic** | Well, you're lucky. I have a pencil and a sharpener and Sioned has a ruler. She has a dictionary as well. |
| **Sali** | Sioned has a dictionary! |
| **Mecanic** | We have a phone and the printer in Sioned's office. |
| **Sali** | *We* have a phone and printer! |
| **Mecanic** | At the moment, Mr and Mrs Jones' electric car is in the garage. They have a new car. |
| **Sali** | They have an electric car! |
| **Mecanic** | But Owen's new tractor is coming from the factory today. |
| **Sali** | Owen the farmer? The farmer has a new tractor! Does he have Megan's phone number too? |
| **Mecanic** | Yes, he has Megan's phone number. As Gareth's secretary, you're phoning Owen at midday. |
| **Sali** | Secretary? I don't work as a secretary!<br>I'm Sali from Aberdaron. I'm visiting Megan and Draig but the cottage has a new phone and I don't have a number. |
| **Mecanic** | So … You don't have a new job in a garage? |
| **Sali** | No! No thank you!!! |

## UNED 15 – City Names, Travel

### Learn city names, discuss travel

It's Friday night and Sioned and Dylan are enjoying a quiet drink together in the village pub.

| | |
|---|---|
| **Sioned** | Dylan, o ble dych chi'n dod yn wreiddiol? O Gaerdydd? |
| **Dylan** | O Ddulyn, yn Iwerddon. Ond, roedd gan Eleri, ffrind Mam, fferm ar bwys y môr yng Nghymru. Felly, mi wnaethon ni benderfynu dod i Brydain. |
| **Sioned** | Oes fferm gydag Eleri nawr? |
| **Dylan** | Nac oes. Does gynni hi ddim fferm ond mae gan Eleri dŷ yn Llundain. Mae gynni hi fflat yng Nghaeredin hefyd. |
| **Sioned** | Dych chi'n hoffi ymweld â gwledydd eraill Dylan? |
| **Dylan** | Ydw. Pan o'n i'n dysgu daearyddiaeth yng Ngogledd America, roedd gen i ffrindiau yn Efrog Newydd ac roedd gynnyn nhw feic modur. |
| **Sioned** | Beic modur! |
| **Dylan** | Mi es i o Ganada i Dde America ac o Fôr Iwerydd i'r Môr Tawel ar y beic. |
| **Sioned** | Gwych! Dw i eisiau mynd ar draws y cefnfor i Dde America hefyd … ond mewn llong neu awyren! |
| **Dylan** | Lle dach chi'n mynd dros y gwyliau nesa Sioned? |
| **Sioned** | I Lundain. Dw i'n mynd mewn tacsi i'r orsaf i ddal y trên i brifddinas Lloegr. |
| **Dylan** | A Gareth? |
| **Sioned** | Wel, mae car newydd gyda Gareth. Mae e eisiau mynd ar y fferi ar draws Môr y Gogledd wedyn mae e eisiau gyrru i Fôr y Canoldir. |
| **Dylan** | Oes gynno fo gar newydd porffor? |
| **Sioned** | Oes. Mae car newydd porffor gyda fe. Pam? |
| **Dylan** | Dyma Gareth rŵan. |
| **Sioned** | O na! |
| **Dylan** | Esgusodwch fi Sioned, dw i isio gwylio'r Chwe Gwlad. |
| **Sioned** | Dw i ddim yn hoffi rygbi o gwbl ond dw i eisiau gwylio'r Chwe Gwlad hefyd!! |
| **Gareth** | Sioned! Sioned!! Pam rwyt ti'n rhedeg??? |

# Translation – City Names, Travel

## Learn city names, discuss travel

It's Friday night and Sioned and Dylan are enjoying a quiet drink together in the village pub.

**Sioned** Dylan, where do you come from originally? From Cardiff?
**Dylan** From Dublin, in Ireland. But, Eleri, Mum's friend, had a farm near the sea in Wales. So, we decided to come to Britain.
**Sioned** Does Eleri have a farm now?
**Dylan** No. She doesn't have a farm but Eleri has a house in London. She has a flat in Edinburgh as well.

**Sioned** Do you like visiting other countries Dylan?
**Dylan** Yes. When I was teaching geography in North America, I had some friends in New York and they had a motorbike.
**Sioned** A motorbike!
**Dylan** I went from Canada to South America and from the Atlantic Ocean to the Pacific Ocean on the bike.
**Sioned** Great! I want to go across the ocean to South America as well … but in a ship or an aeroplane!

**Dylan** Where are you going over the next holidays Sioned?
**Sioned** To London. I'm going in a taxi to the station to catch the train to England's capital city.
**Dylan** And Gareth?
**Sioned** Well, Gareth has a new car. He wants to go on the ferry across the North Sea then he wants to drive to the Mediterranean.

**Dylan** Does he have a new purple car?
**Sioned** Yes. He has a new purple car. Why?
**Dylan** Here's Gareth now.
**Sioned** Oh no!
**Dylan** Excuse me Sioned, I want to watch the Six Nations.
**Sioned** I don't like rugby at all but I want to watch the Six Nations too!!
**Gareth** Sioned! Sioned!! Why are you running???

## UNED 16 – How You Arrived, Past Meal

### Say how you arrived, describe a past meal

Draig is not having a good day. His brand new bicycle has disappeared from outside the village hall and needs to be found!

| | |
|---|---|
| **Draig** | Prynhawn da, Mr a Mrs Jones! |
| **Mrs Jones** | Prynhawn da, Draig! Sut dych chi? |
| **Draig** | Gweddol ond … Mae hi'n braf heddiw. Ddaethoch chi yma ar feic i weld yr arddangosfa? |
| **Mrs Jones** | Ar feic? Naddo. Daethon ni mewn tacsi. Daethon ni â Sioned i wrando ar y cyngerdd. |
| **Draig** | O, daethoch chi mewn tacsi. |
| | |
| **Draig** | Shwmae Dylan. Sut wyt ti? Sut dest ti yma? Ddest ti ar feic? |
| **Dylan** | Do. Mi ddes i yma efo Owen ar feic modur. |
| **Draig** | O, daethon nhw ar y beic *modur*. (To himself) |
| **Dylan** | Mi ddes i ag Owen i'r farchnad ond mi ddes i i'r caffi. Mi ges i salad da i ginio. Mi gaeth Sioned gyri a bara brith. |
| **Draig** | Sioned? Ddaeth Sioned ar feic? |
| **Dylan** | Naddo. Mi ddaeth hi mewn car porffor. |
| **Draig** | O, daeth hi mewn car. |
| | |
| **Draig** | Megan! |
| **Megan** | Shwmae, Draig. Des i yma'n syth o'r ysbyty. Beth… |
| **Draig** | Ces i syndod ofnadwy bore 'ma. |
| **Megan** | Gest ti syndod ofnadwy? Pam? |
| **Draig** | Mae'r beic wedi mynd! |
| **Megan** | Wedi mynd? |
| | |
| **Cath** | Shwmae Draig. Dw i'n dod!!! |
| **Draig** | Dyma'r beic newydd! Cest ti amser da Cath!! |
| **Cath** | Ces i amser da heddiw ond … |
| **Draig** | Cath, rwyt ti'n mynd yn rhy … |
| **Cath** | Miaw!!!!!! Miaw. |

## Translation – How You Arrived, Past Meal

### Say how you arrived, describe a past meal

Draig is not having a good day. His brand new bicycle has disappeared from outside the village hall and needs to be found!

**Draig** Good afternoon, Mr and Mrs Jones!
**Mrs Jones** Good afternoon, Draig! How are you?
**Draig** So-so but … It's fine today. Did you come here by bike to see the exhibition?
**Mrs Jones** By bike? No. We came in a taxi. We brought Sioned to listen to the concert.
**Draig** Oh, you came in a taxi.

**Draig** Hello Dylan. How are you? How did you come here? Did you come by bike?
**Dylan** Yes. I came here with Owen by motorbike.
**Draig** Oh, they came on the *motor*bike. (To himself)
**Dylan** I brought Owen to the market but I came to the café. I had a good salad for lunch. Sioned had a curry and bara brith.
**Draig** Sioned? Did Sioned come by bike?
**Dylan** No. She came in a purple car.
**Draig** Oh, she came in a car.

**Draig** Megan!
**Megan** Hello, Draig. I came here straight from the hospital. What …
**Draig** I had a terrible surprise this morning.
**Megan** You had a terrible surprise? Why?
**Draig** The bicycle's gone!
**Megan** Has gone?

**Cath** Hello Draig. I'm coming!!!
**Draig** Here's the new bicycle! You had a good time Cath!!
**Cath** I had a good time today but …
**Draig** Cath, you're going too …
**Cath** Miaow!!!!!! Miaow.

## UNED 17 – Family, Why You Returned

### Talk about family, say why you returned

It's Aunt Sali's 60th birthday and Megan and Draig have arranged a birthday party for family and friends in the village hall.

| | |
|---|---|
| **Draig** | Esgusodwch fi, chawsoch chi ddim te yn gynharach. Ga i ddod â choffi? |
| **Taid/Tad-cu** | Dim diolch. Ches i ddim te ond mi ges i gwrw. Beth ydy eich enw chi? |
| **Draig** | Draig dw i. |
| **Taid/Tad-cu** | Prynhawn da, Draig. Taid dw i, tad mam Megan. |
| **Draig** | Prynhawn da, Tad-cu. Sut daethoch chi yma o Fangor? Yn eich car eich hun neu ar y trên? |
| **Taid/Tad-cu** | Sut des i yma? Mi ddaethon ni yn ein car ein hunain. Dach chi'n nabod fy ngwraig i, nain Megan? |
| **Draig** | Nac ydw. Prynhawn da, Mam-gu. |
| **Nain/Mam-gu** | Prynhawn da. Dach chi wedi cwrdd â fy ngŵr! Dach chi isio cwrdd â fy chwaer hefyd? |
| **Draig** | Eich chwaer chi? |
| **Nain/Mam-gu** | Mi ddaeth hi yma yn ei char ei hun nos Sadwrn diwetha i recordio'r côr yn y neuadd neithiwr. Ond … lle mae hi wedi mynd?? |

| | |
|---|---|
| **Megan** | Draig! |
| **Draig** | Shwmae Megan, ro'n i'n cwrdd â dy deulu di … dy dad-cu a dy fam-gu. |
| **Megan** | Ond Draig, ble mae'r gacen? Dyn ni eisiau bwyta'r gacen ar amser. |
| **Draig** | O. Un funud. |

| | |
|---|---|
| **Draig** | Cacen. Cacen. Ble mae'r gacen wedi mynd? Cath! Sut dest ti yma … a pham? |
| **Cath** | Ro'n i eisiau ymuno â'r parti. Felly, des i ar hyd y llwybr i'r neuadd ac … roedd golygfa braf yn y neuadd. |
| **Draig** | Y gacen!! |

**Cath** Wel, ches i ddim cinio heddiw a …

**Draig** Gwnaeth Megan, ei chariad a fi'r gacen dros y penwythnos. Ein gwaith ni ein hunain oedd y gacen.

**Cath** Eu gwaith nhw eu hunain! Miaw. (To himself)

**Draig** Ond mae'r llanast …

**Cath** Fy ngwaith i fy hun.

**Draig** Dy waith di dy hun! Rwyt ti wedi bwyta eu cacen nhw!

**Cath** Miaw. Dw i'n mynd i lawr y lôn.

**Draig** O na! Cath!! Mae'r lôn yn arwain at y …

**Cath** Miaw!!!!!!

**Draig** … gamlas!!!

**Cath** Miaw.

## Translation – Family, Why You Returned

### Talk about family, say why you returned

It's Aunt Sali's 60th birthday and Megan and Draig have arranged a birthday party for family and friends in the village hall.

**Draig** Excuse me, you didn't have a tea earlier. May I bring a coffee?

**Taid/Tad-cu** No thank you. I didn't have a tea but I had a beer. What's your name?

**Draig** I'm Draig.

**Taid/Tad-cu** Good afternoon, Draig. I'm Grandpa, Megan's mother's father.

**Draig** Good afternoon, Grandpa. How did you come here from Bangor? In your own car or on the train?

**Taid/Tad-cu** How did I come here? We came in our own car. Do you know my wife, Megan's grandmother?

**Draig** No. Good afternoon, Grandma.

**Nain/Mam-gu** Good afternoon. You've met my husband! Do you want to meet my sister as well?

**Draig** Your sister?

**Nain/Mam-gu** She came here in her own car last Saturday night to record the choir in the hall yesterday evening. But … where has she gone??

**Megan** Draig!

**Draig** Hello Megan, I was meeting your family … your grandfather and your grandmother.

**Megan** But Draig, where's the cake? We want to eat the cake on time.

**Draig** Oh. One minute.

**Draig** Cake. Cake. Where has the cake gone? Cath! How did you come here … and why?

**Cath** I wanted to join the party. So, I came along the path to the hall and … there was a nice sight in the hall.

**Draig** The cake!!

**Cath** Well, I didn't have any lunch today and …

**Draig** Megan, her boyfriend and I made the cake over the weekend. The cake was our own work.

**Cath** Their own work! Miaow. (To himself)

**Draig** But the mess …

**Cath** My own work.

**Draig** Your own work! You've eaten their cake!

**Cath** Miaow. I'm going down the lane.

**Draig** Oh no! Cath!! The lane leads to the …

**Cath** Miaow!!!!!!

**Draig** … canal!!!

**Cath** Miaow.

## UNED 18 – What You Got, Family

### Describe what you got, discuss family

Aunt Sali's birthday party is in full swing and looks set to be a memorable day …

**Megan** O, dyma Draig.

Draig, ar hyn o bryd mae Sali'n agor ei hanrheg, ffôn symudol a thegell newydd, felly dyn ni ddim eisiau'r gacen eto.

**Draig** Megan …

**Megan** Wyt ti eisiau cwrdd â pherthnasau eraill? Dyma fodryb, ewythr a chefnder Sali o Ganada.

**Draig** Prynhawn da! Pryd daethoch chi yma?

**Ewythr** Daethon ni wythnos diwetha i weld priodas wyres Dewi ar lan y môr.

**Draig** Pwy oedd y priodfab?

**Ewythr** Gwnaeth hi briodi â nai Owen.

**Modryb** Ac roedd hi'n edrych yn brydferth fel priodferch.

**Ewythr** Roedd y tywydd yn braf.

**Modryb** Daeth fy llysfab a fy llysferch …

**Ewythr** … a fy nhad yng nghyfraith a fy chwaer yng nghyfraith hefyd! Ond caethon ni bryd o fwyd blasus iawn i ginio.

**Modryb** Cafodd e bastai a sglogion!

**Ewythr** A chaeth hi salad ac wyau!

**Modryb** Ond chawson ni ddim cacen.

**Ewythr** Naddo, chaethon ni ddim cacen o gwbl.

**Draig** Chaethon nhw ddim cacen. Dydyn nhw ddim yn mynd i gael cacen heddiw chwaith. (To himself)

**Megan** Draig, dyn ni eisiau'r gacen nawr.

**Draig** Ond Megan, does dim cacen gyda ni.

**Megan** Does dim cacen! Beth?

**Cath** Draig, dw i'n dod! Ydw i mewn pryd?
Gwnaeth cyfnither Owen gacen ddoe.

**Draig** Ond Cath, rwyt ti'n mynd yn rhy …

**Cath** Miaw!!!!!! Miaw.

**Megan** Sut mae Cath?

**Draig** Mae Cath yn weddol ond sut mae'r gacen?

**Megan** Mae'r gacen yn iawn ond …

**Draig** O na! Cacen siocled gyda … phannas!!!

## Translation – What You Got, Family

### Describe what you got, discuss family

Aunt Sali's birthday party is in full swing and looks set to be a memorable day …

**Megan** Oh, here's Draig.

Draig, at the moment Sali is opening her present, a mobile phone and a new kettle, so we don't want the cake yet.

**Draig** Megan …

**Megan** Do you want to meet some other relatives? Here's Sali's aunt, uncle and cousin from Canada.

**Draig** Good afternoon! When did you come here?

**Ewythr** We came last week to see Dewi's granddaughter's wedding at the seaside.

**Draig** Who was the groom?

**Ewythr** She married Owen's nephew.

**Modryb** And she looked beautiful as a bride.

**Ewythr** The weather was fine.

**Modryb** My stepson and stepdaughter came …

**Ewythr** … and my father-in-law and my sister-in-law as well! But we had a very tasty meal for lunch.

**Modryb** He had pie and chips!

**Ewythr** And she had salad and eggs!

**Modryb** But we didn't have any cake.

**Ewythr** No, we didn't have any cake at all.

**Draig** They didn't have any cake. They aren't going to have any cake today either. (To himself)

**Megan** Draig, we want the cake now.

**Draig** But Megan, we don't have a cake.

**Megan** There's no cake! What?

| | |
|---|---|
| **Cath** | Draig, I'm coming! Am I in time? |
| | Owen's cousin made a cake yesterday. |
| **Draig** | But Cath, you're going too … |
| **Cath** | Miaow!!!!!! Miaow. |
| **Megan** | How's Cath? |
| **Draig** | Cath is so-so but how is the cake? |
| **Megan** | The cake is OK but … |
| **Draig** | Oh no! A chocolate cake with … parsnips!!! |

## UNED 19 – Past, Have To Do

### Talk about the past, say what you have to do

Aunt Sali's party seems to have been a major success. However, Dylan has some puzzling news …

| | |
|---|---|
| **Dylan** | S'mae Megan! S'mae Draig! Mi fwynheues i'r parti ddoe, diolch. |
| **Megan** | Shwmae Dylan! Gwych. Fwynheuodd Sioned y parti hefyd? |
| **Dylan** | Do. Mi fwynheuodd hi'r parti'n fawr. Ond welais i mo Owen. |
| **Megan** | Paratôdd Owen bannas ar gyfer y parti ond roedd e'n gweithio ar y fferm yn y prynhawn. |
| **Dylan** | Does dim rhaid i mi weithio heddiw ond rhaid i mi fynd i'r orsaf bore 'ma. Rhaid i wyres ac ŵyr fy mrawd ddal y trên i Fangor. |
| **Megan** | O. Oes rhaid iddyn nhw? |
| **Dylan** | Oes. Rhaid iddi hi ymweld â nith yn yr ysbyty. Rhaid iddo fo helpu ei lysfam. |
| **Megan** | Wel, rhaid i ni dacluso'r neuadd. |
| **Dylan** | Y neuadd? Ddarllenoch chi'r papur bore 'ma? |
| **Megan** | Naddo. Cododd Draig yn hwyr. Felly, phrynodd e mo'r papur. |
| **Dylan** | Wel, wrandawaist ti ar y radio, Megan? |
| **Megan** | Naddo, gwylion ni'r teledu neithiwr. Ond, pam? |
| **Dylan** | Mi ddarllenes i'r papur. Mi aeth cogydd i'r neuadd yn gynnar iawn bore 'ma. Mi lanheuodd o'r gegin. Mi baratôdd o uwd ar gyfer brecwast …wedyn … |
| **Draig** | Beth ddigwyddodd? |
| **Dylan** | Roedd golygfa ofnadwy yn y neuadd. Roedd rhywbeth gwyn yn symud yn araf iawn, uwchben y bwrdd ac yn gwneud … |
| **Draig** | …miaw??? |
| **Megan** | Draig, ffoniaist ti Cath neithiwr? |
| **Draig** | Do. Ond doedd e ddim yno. |
| **Megan** | O na! Rhaid i ti beidio â mynd yn rhy gyflym Draig ond … |
| **Draig** | Cath!!! Dw i'n dod!!! |

## Translation – Past, Have To Do

### Talk about the past, say what you have to do

Aunt Sali's party seems to have been a major success. However, Dylan has some puzzling news …

| | |
|---|---|
| **Dylan** | Hello Megan! Hello Draig! I enjoyed the party yesterday, thanks. |
| **Megan** | Hello Dylan! Great. Did Sioned enjoy the party as well? |
| **Dylan** | Yes. She enjoyed the party a lot. But I didn't see Owen. |
| **Megan** | Owen prepared parsnips for the party but he was working on the farm in the afternoon. |
| **Dylan** | I don't have to work today but I have to go to the station this morning. My brother's granddaughter and grandson have to catch the train to Bangor. |
| **Megan** | Oh. Do they have to? |
| **Dylan** | Yes. She has to visit a niece in the hospital. He has to help his stepmother. |
| **Megan** | Well, we have to tidy the hall. |
| **Dylan** | The hall? Did you read the paper this morning? |
| **Megan** | No. Draig got up late. So, he didn't buy the paper. |
| **Dylan** | Well, did you listen to the radio, Megan? |
| **Megan** | No, we watched the television last night. But, why? |
| **Dylan** | I read the paper. A cook went to the hall very early this morning. He cleaned the kitchen. He prepared porridge for breakfast … then … |
| **Draig** | What happened? |
| **Dylan** | There was a terrible sight in the hall. Something white was moving very slowly above the table and making … |
| **Draig** | …a miaow??? |
| **Megan** | Draig, did you phone Cath last night? |
| **Draig** | Yes. But he wasn't there. |
| **Megan** | Oh no! You mustn't go too fast Draig but … |
| **Draig** | Cath!!! I'm coming!!! |

## UNED 20 – What Happened, Orders

### Say what happened, give orders

Mrs Jones has started learning to drive but it's proving to be a little more difficult than expected …

| | |
|---|---|
| **Mrs Jones** | Celyn! Sioned!<br>Bwytwch eich uwd ac ywch eich llaeth! |
| **Celyn** | Iawn. |
| **Mrs Jones** | Ar ôl i chi godi, tacluswch y lolfa! |
| **Sioned** | Oes rhaid i ni? |
| **Mrs Jones** | Oes. Ac ar ôl tacluso'r lolfa, postiwch lyfr y cyngor hefyd! Mae'r cyfarfod ddydd Llun nesa.<br>Rhaid i fi fynd … mae'r car wedi cyrraedd. |
| **Mr Thomas** | Prynhawn da, Mrs Jones. Sut dych chi? |
| **Mrs Jones** | Prynhawn da, Mr Thomas. Da iawn, diolch. |
| **Mr Thomas** | Nawr, Mrs Jones. Heddiw, dyn ni'n mynd i ddechrau yn y pentre. Felly, ewch heibio i'r llyfrgell, yn araf. |
| **Mrs Jones** | Ewch heibio i'r neuadd. |
| **Mr Thomas** | Y llyfrgell, Mrs Jones. |
| **Mr Thomas** | Edrychwch ar y goleuadau. |
| **Mrs Jones** | Y goleuadau. Y goleuadau. Ble mae'r goleuadau? |
| **Mr Thomas** | Ble roedd y goleuadau? Mrs Jones, rhaid i chi beidio â mynd yn rhy gyflym ar hyd y lôn. |
| **Mr Thomas** | Nawr, cyn i ni gyrraedd y fferm, dewch i'r chwith wedyn trowch i'r dde wrth yr arwydd newydd. |
| **Mrs Jones** | Cyn cyrraedd y fferm, dewch i'r dde wedyn trowch i'r chwith. |
| **Mr Thomas** | Peidiwch â throwch i'r chwith!!! |
| **Mrs Jones** | Does dim rhaid i chi boeni Mr Thomas, dw i'n iawn. |
| **Mr Thomas** | Mrs Jones. Ffoniwch y garej! |

## Translation – What Happened, Orders

### Say what happened, give orders

Mrs Jones has started learning to drive but it's proving to be a little more difficult than expected …

| | |
|---|---|
| **Mrs Jones** | Celyn! Sioned!<br>Eat your porridge and drink your milk! |
| **Celyn** | OK. |
| **Mrs Jones** | After you get up, tidy the lounge! |
| **Sioned** | Do we have to? |
| **Mrs Jones** | Yes. And after tidying the lounge, post the council book as well! The meeting is next Monday.<br>I have to go … the car has arrived. |
| **Mr Thomas** | Good afternoon, Mrs Jones. How are you? |
| **Mrs Jones** | Good afternoon, Mr Thomas. Very well, thank you. |
| **Mr Thomas** | Now, Mrs Jones. Today, we are going to start in the village. So, go past the library, slowly. |
| **Mrs Jones** | Go past the hall. |
| **Mr Thomas** | The library, Mrs Jones. |
| **Mr Thomas** | Look at the lights. |
| **Mrs Jones** | The lights. The lights. Where are the lights? |
| **Mr Thomas** | Where were the lights? Mrs Jones, you mustn't go too quickly along the lane. |
| **Mr Thomas** | Now, before we reach the farm, come to the left then turn to the right by the new sign. |
| **Mrs Jones** | Before reaching the farm, come to the right then turn to the left. |
| **Mr Thomas** | Don't turn left!!! |
| **Mrs Jones** | You don't have to worry Mr Thomas, I'm fine. |
| **Mr Thomas** | Mrs Jones. Phone the garage! |